

DOLEN Y TAB – 19

28–29 Awst 2020

Yn ôl ein harfer, byddwn yn cyd-addoli gyda Bethlehem, Gwaelod y Garth, drwy gydol mis Awst.

****BORE SUL 30 AWST****

Dan ofal Rhodri-Gwynn Jones, Bethlehem, Gwaelod y Garth.

OEDFAON MIS MEDI

6 Medi

Yng ngofal aelodau Efail Isaf

13 Medi

Y Parchg. Aled Edwards

20 Medi

Oedfa Deuluol

27 Medi

Y Parchg. Gethin Rhys

Os na chlywch yn wahanol, bydd pob un o'r oedfaon hyn ar gael ar ein llwyfannau arferol.

Cofiwch hefyd bob dydd Sul am . . .

- **12.00**
Oedfa Radio Cymru
- **12.30**
Rhaglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.
- **E-fwletin** *Cristnogaeth21* ar eu gwefan www.cristnogaeth21.cymru

Dymuniadau Gorau

Estynnwn ein dymuniadau gorau i bob un o blant y Tabernacl fydd yn dechrau mewn ysgol newydd yr wythnos nesaf, a hefyd i'r bobl ifanc hynny sydd ar fin dechrau neu ddychwelyd i'r coleg, ac i'r rhai sydd ar fin dechrau mewn swydd newydd.



Llwyddodd Mike West, un o'n haelodau mwyaf creadigol, i fanteisio'n llawn yn ddiweddar ar y cyfle a roddwyd gan y cyfnod clo i drawsffurfio'r Ganolfan yn stiwdio gelf dros-dro; roedd hyn yn ei alluogi i gwblhau cyfres o furluniau ardderchog fel rhan o gynllun gardd newydd yn Uned Arbennig Ysgol Glantaf. Bellach mae'r murluniau wedi eu cludo o'r Ganolfan i'r ysgol, ond serch hynny bydd modd i bob un ohonom werthfawrogi gwaith cain Mike yn llawn pan gânt eu dangos yn un o raglenni'r gyfres deledu 'Project Pum Mil' a ddarlledir ar S4C ym mis Tachwedd neu Ragfyr. Ymhlith y rhai gaiff werthfawrogi'r murluniau, wrth gwrs, fydd Iwan, mab Lyn a Mike, sy'n mynychu'r Uned yn Ysgol Glantaf.

Pob hwyl i Gwenno!

Pob dymuniad da i Gwenno Rees, merch Geraint a Caroline, sydd newydd hedfan i gyfandir Affrica i weithio fel athrawes am gyfnod o ddwy flynedd. Cynhaliodd y teulu barti arbennig i ffarwelio â hi, ar y thema 'Parti Serengeti' gyda'r gwesteion wedi gwisgo'n addas i gynrychioli rhai o anifeiliaid y parc cenedlaethol yn Tanzania! O fewn byr amser i lanio yn y wlad, roedd Gwenno eisoes wedi dechrau ar ei swydd newydd yn Ysgol Ryngwladol Mwanza. Pob hwyl i ti, Gwenno – bydd pawb yn edrych 'mlaen at glywed yr hanes maes o law.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 8 Medi. Os bydd unrhyw fater gennych i'w godi yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) erbyn nos Sul 6 Medi fan bellaf.

Diolch yn fawr

Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd?

Llyfr y byddaf yn cael blas mawr yn pori ynddo o bryd i'w gilydd yw *Llyfr y Ganrif* (Y Lolfa, 1999). Ffrwyth prosiect ymchwil ar y cyd rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a gwasg Y Lolfa yw'r gyfrol swmpus 445 tudalen hon sy'n 'cofnodi, fesul blwyddyn, ddiwyddiadau pwysig, ac ambell un llai pwysig, yn ystod yr ugeinfed ganrif'. Nid yw'r tîm a luniodd y gyfrol yn ceisio dehongli hanes y ganrif, ond yn hytrach yn cyflwyno brasluniau darllenadwy o'r holl amrywiaeth o weithgareddau sy'n adlewyrchu pob agwedd o fywyd y Cymry rhwng 1900 a 1999. Clustnodir pedair tudalen A4 i bob blwyddyn, yn cynnwys adroddiadau a lluniau, a'r cyfan wedi'i gyflwyno mewn fformat newyddiadurol.

Fel yr awgrymwyd uchod, nid cyfrol i'w darllen o glawr i glawr mohoni, ond yn hytrach un i fodio drwyddi'n achlysurol. Yr wythnos hon, troi wnes i droi at yr hanesion a ddewiswyd gan y golygyddion i adlewyrchu'r flwyddyn 1920. Neilltuir y dudalen flaen i nodi mai ar 31 Mawrth y flwyddyn honno y torrwyd y cysylltiad rhwng yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru a'r wladwriaeth. I'r rhan sy'n gyfarwydd iawn â hanes 'Rhyfel y Degwm' ac aberth rhai anghydfurfwr am gyfiawnder yn yr 1880au, syndod oedd gweld y llun o fintai fawr o eglwyswyr yn gorymdeithio i fyny'r Stryd Fawr yn Aberystwyth i fynegi eu gwrthwynebiad i'r mesur datgysylltu. Diolch byth, fe arweiniodd y Datgysylltiad at fywiogrwydd newydd oddi mewn i'r Eglwys yng Nghymru, a bellach ysbryd o gydweithrediad a brawdoliaeth – nid gelyniaeth – yw'r berthynas rhwng yr Eglwys a'r enwadau anghydfurfiol.

Hanesyn arall yn 1920 a dynnodd fy sylw oedd un dan y pennawd 'Cwffio yn y Capel'. Digwyddodd y sgarmes nos Sul 11 Ionawr yng Nghapel Libanus, Cwmbwrla. Mae'n ymddangos bod dwy garfan elyniaethus wedi tyfu o fewn y capel ers tro, ac oherwydd hynny gofynnwyd am bresenoldeb plismon yn y cwrdd rhag ofn y byddai helynt yn codi. Ond ofer fu ymdrechion y Cwnstabl Phillips i rwystro cwffio mawr ymhlith yr aelodau, ac yn y diwedd bu'n rhaid diffodd y golau a hel y gynulleidfa allan. Ni roddwyd unrhyw esboniad am y ffrwgwd, ond fis yn ddiweddarach ymddiswyddodd y gweinidog, y Parchedig Herman Evans. Cwta ddwy flynedd yn unig ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf,

mae'n gwbl amlwg nad oedd nifer o'r rhai oedd yn arddel neges yr efengyl am 'gariad' wedi dysgu dim am oferedd trais i ddatrys anghydfod. Does dim syndod, felly, i filoedd o Gymry droi eu cefnau ar y capel yn ystod y cyfnod hwn.

Pan fydd ymchwilwyr y ganrif nesaf yn cynhyrchu dilyniant i *Llyfr y Ganrif*, hyderwn y bydd modd adrodd hanesion mwy cadarnhaol am ein heglwysi yn 2020 er gwaethaf Cofid-19.

YR AMLENNI GWYN

Aeth 23 o Suliau heibio bellach ers i ni gwrdd mewn oedfa yn y capel, ond mae modd i chi barhau i gyfrannu at gronfa'r eglwys (amleni gwyn) drwy anfon siec yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd:

Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Neu fel arall gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.
Cod didoli: 30 – 96 – 72
Rhif y cyfrif: 03607499

Diolch am bob cefnogaeth.

Capel y Tabernacl Cyf.

Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.

Am fanylion pellach a thelerau'r swydd, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Mike West mikealynwest@yahoo.co.uk / 01443 206833
Gwilym Huws gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i:*

gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.